**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-05-02 (p.5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Iau 14 Chwefror 2002** |
| **Lleoliad:** | **Theatr Brycheiniog, Aberhonddu** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Wasanaethau ar gyfer Plant ag Anghenion Iechyd Arbennig: Arolwg o'r Llenyddiaeth** |

## Diben

1. Dyma bapur i'w nodi, yn cynghori aelodau ynghylch yr adolygiad o'r llenyddiaeth a fydd yn rhoi gwybodaeth ar gyfer camau olaf Adolygiad y Pwyllgor o Wasanaethau ar gyfer Plant ag Anghenion Iechyd Arbennig.

## Cefndir

2. Mae Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru wedi comisiynu'r adolygiad o'r llenyddiaeth oddi wrth Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygol Prifysgol Cymru sy'n cydweithio â'r Ganolfan Ymchwil ar gyfer Astudiaethau Teulu ym Mhrifysgol Caerdydd (cyd-fenter rhwng Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru).

3. Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth yn cynnwys saith elfen, a bydd pob un ohonynt yn ystyried, pan fo'n briodol, yr wyth mater a nodwyd gan y pwyllgor ac sydd wedi eu cynnwys yn y llythyr ymgynghori cyhoeddus (gweler yr atodiad). Dyma'r saith elfen:

i. y gallu i symud;

ii. nam ar y synhwyrau;

iii. anawsterau ymddygiadol / emosiynol / iechyd meddwl;

iv. anabledd dysgu, awtistiaeth (ac afiechydon o'r un sbectrwm);

v. cymorth anadlu hirdymor;

vi. salwch sy'n cyfyngu ar fywyd; a

vii. phlant o dan ofal, mewn lleoliadau.

Er mai prif bwrpas y gwaith hwn yw cael gwybodaeth ar gyfer adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y gwaith yn werthfawr i bobl broffesiynol a sefydliadau eraill sydd â

diddordeb y tu hwnt i anghenion uniongyrchol adolygiad y Pwyllgor.

## Y Tîm Adolygu

4.Mae’r unigolion canlynol yn rhan o’r tîm adolygu:

**Yr Athro Jo Sibert, MA, MD, B. Chir, FRCP, FRCPCH, DCH, DObstRCOG**. Athro ym maes Iechyd Plant Cymunedol; Pennaeth yr Adran Iechyd Plentyn yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru (UWCM); Is-gadeirydd y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Astudiaethau Teuluol. Mae gan yr Athro Sibert brofiad helaeth drwy ei waith fel clinigwr, athro ac ymchwilydd, o ddelio â phlant sydd ag anghenion arbennig. Mae ganddo dros 130 o gyhoeddiadau gwyddonol i’w enw, gan gynnwys gwaith sylweddol ar anableddau, ac yn enwedig ar nychdod cyhyrol.

**Lyn Horrocks,** Arolygydd Ffisiotherapi Plant, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro; Cyfarwyddwr y Cwrs Modiwl ar gyfer y cwrs M.Sc mewn Iechyd Plant yng Ngholeg Meddygol Prifysgol Cymru.

Ms Horrocks sy’n arwain y gwaith ar y **gallu i symud.**

**Yr Athro Ian Butler**, Athro ar ymweliad (Athro ar Waith Cymdeithasol, Prifysgol Keele). Mae’r Athro Butler yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig gyda phrofiad rheoli a phrofiad mewn practis. Y mae wedi gweithio yn y sectorau annibynnol, gwirfoddol a statudol, Mae’n olygydd ar y British Journal of Social Work.

**Dr Rachel Brooks MB ChB DCH MSc,** Darlithydd yn Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Mae gan Dr Brooks arbenigedd mewn afiechydon cymdeithasol a chyfathrebu, gan gynnwys awtistiaeth.

Dr Brooks sy’n arwain y gwaith ar **anawsterau dysgu.**

**Dr Alison Kemp MB BCh MRCP FRCPH DCH**, Uwch Ddarlithydd mewn Iechyd Plant yng Ngholeg Meddygol Prifysgol Cymru. Mae ei diddordebau clinigol yn cynnwys plant ag anghenion arbennig, ADHD, amddiffyn plant.

**Dr Elspeth Webb** Uwch ddarlithydd mewn iechyd plant, Coleg Meddygol Prifysgol Cymru sy’n gweithio ar feysydd anableddau dysgu ac awtistiaeth.

**Beverly Ranton,** Nyrs Ymchwil, Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygol Prifysgol Cymru. Profiad o weithio gyda phlant ag anghenion arbennig mewn canolfan blant.

**Dr Heather Payne,** Uwch Ddarlithydd mewn Iechyd Plant a Chyfarwyddwr y Cwrs Modiwl ar gyfer y cwrs M.Sc mewn Iechyd Plant yng Ngholeg Meddygol Prifysgol Cymru ac yn Bediatregydd

Ymgynghorol gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwent.

Dr Payne sy’n arwain y gwaith ar **blant o dan ofal.**

**Yr Athro Richard Williams,** Athro mewn Strategaethau Iechyd Meddwl yn Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Ysgol y Gwyddorau Gofal, Prifysgol Morgannwg. Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc, Ymddiriedolaeth GIG Gwent. Mae’r Athro Williams yn Ymgynghorydd Proffesiynol ym maes Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc i’r Cynulliad Cenedlaethol a bu yn aelod o banel Adolygu Carlile.

Yr Athro Williams sy’n arwain y gwaith ar **anawsterau ymddygiadol / emosiynol / iechyd meddwl** gyda Dr Street.

**Dr Edward Street,** Seicolegydd Ymgynghorol Clinigol, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r fro, darlithydd anrhydeddus yn Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Cadeirydd Pwyllgor Cymru gyfan ar gyfer Seicoleg Clinigol i Blant. Golygydd, Journal of Family Therapy.

Dr Street sy’n arwain y gwaith ar **anawsterau ymddygiadol / emosiynol / iechyd meddwl** gyda’r Athro Williams.

Mae **Dr Amanda Roberts** yn Arbenigwr Cyswllt ym maes awdioleg pediatrig gydag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro. Mae ganddi brofiad clinigol helaeth ym maes awdioleg, a namau iaith a lleferydd.

Dr Roberts sy’n arwain y gwaith ar **nam ar synhwyrau.**

**Dr Iolo Doull**, Ymgynghorydd ym meddygaeth anadlu Pediatrig yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro. Mae newydd gwblhau adroddiad ar Gymorth Anadlu Hirdymor ar gyfer Comisiwn Gofal Iechyd Arbenigol Cymru.

Dr Doull sy’n arwain y gwaith ar **gymorth anadlu hirdymor**.

**Dr Richard Hain,** Uwch Ddarlithydd LATCH mewn Gofal Lliniarol Pediatrig, Adran Gofal Plant, Prifysgol Cymru. Mae e’n un o’r unig ddau ymgynghorydd gofal lliniarol pediatrig sydd yn y DU.

Dr Hain sy’n arwain y gwaith ar salwch **sy’n cyfyngu ar fywyd.**

**Dr Alison Weightman**, Dirprwy Gyfarwyddwr dros dro y Llyfrgell, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.

**Carolyn Dunford,** Uwch Therapydd Galwedigaethol Ymchwil Ymddiriedolaeth GIG Gwent a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.

Mae Ms Dunford yn gweithio gyda Ms Horrocks ar y **gallu i symud.**

## Amseriad

Bydd adroddiad ar yr adolygiad o’r llenyddiaeth ar gael erbyn diwedd Mawrth, gyda chyflwyniad ar lafar ar ddarganfyddiadau’r adolygiad yn cael ei roi ger bron y Pwyllgor ym mis Ebrill.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**